Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 13 Rhagfyr 2016

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, G. Parry, Meirion Jones, D. Williams, G. C. Jones, Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	A. Williams, E. Parry, Mervyn Jones, D. James, S. Edwards, H. Huws, J. Evans (Cynghorwr Sirol)		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Ymweliad gan PCSO**		
	Croesawyd A. Mummery PCSO Wendy Kay I'r cyfarfod. Nodwyd Wendy mai hi yw y PCSO I'r ardal ac yn gyfrifol am ardal o Frynsiencyn I Benmon, ac mae hi'n cynnal sesiwn agored yn Co-Op yn Llanfair ar y 04 Ionawr 2017. A. Mummery yn nodi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn y Gors, a bod difrod wedi achosi i wlâu blodau a graffiti yn ddiweddar. Nodwyd Wendy bod yn bwysig reportio pob digwyddiad, unai drwy ffonio rhif 101, neu ar lein drwy e-bost neu chat. Nodwyd A. Mummery a Meirion Jones bod pryder a siom gyda'r heddlu yn gyffredinol am ddiffyg rhannu gwybodaeth ar achosion mawr yn ddiweddar. G. Parry yn nodi bod parcio yn bryder pan fydd Slimming World yn cyfarfod yn y pentref, Wendy yn nodi mai mater i wardeniaid traffig yw hyn.		
4.0	**Cyfrifon Mis Rhagfyr 2016**		
4.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio, derbyniwyd y cyfrifon fel y rhai cywir		
5.0	**Materion y Cyngor Sir**		
5.1	Meirion Jones yn nodi bod Ymgynghoriad Y Grid Cenedlaethol yn cau ar 16 Rhagfyr 2016		
5.2	Meirion Jones yn nodi bod ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor Sir wedi cau		
5.3	Meirion Jones yn nodi bod cais cynllunio'r Zorb wedi cael ei wrthod.		
5.4	Meirion Jones yn nodi bod dim diweddariad ar gais gynllunio Hen Lon Dyfnia ar ôl y gwrandawiad		
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd 2016**		
6.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi**		
7.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
7.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones a S. Edwards am barhau i weithredu ar drefniadau erbyn Mis Mai	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
7.3	Llwybr beicio - H. Huws yn nodi bod angen rhoi marciau newydd ar y ffordd. Clerc I hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**31/01/17**
7.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc I gysylltu â Saer Maen lleol am gyngor pellach ar atgyweirio'r cloc	**D. Owen**	**31/01/17**
7.5	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery yn nodi ei fod wedi derbyn dau bris, clerc i holi contractwr arall i gael pris i gael cymharu ag i symud ymlaen i wneud y gwaith.	**D. Owen**	**31/01/17**
7.6	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc I gysylltu ag Adran Priffyrdd CSYM I ofyn iddynt gysidro ymestyn llinellau melyn yn y mannau yma.	**D. Owen**	**31/01/17**
7.7	Wifi Neuadd Goffa - Clerc wedi trafod a BT, nodwyd bod i fod i wneud y gwaith ar 15 Rhagfyr 2016		

7.8	Ymgyrch codi arian y Neuadd Goffa - A. Mummery yn nodi ei fod wedi derbyn pris o £275 y diwrnod gan Mark Roberts I wneud y gwaith i gwblhau y cais grantiau. Cytunwyd I drefnu cyfarfod gydag o am drafodaeth a chyngor ar y mater.	**A. Mummery**	**31/01/17**
7.9	Gwelliannau Pentrefol - Nodwyd bod sesiwn wedi trefnu yn Ionawr yn lle Cyfarfod Pwyllgor Fynwent. Meirion Jones am holi Cwmni Tref Llangefni am wybodaeth a chyngor am eu sefydliad	**Meirion Jones**	**31/01/17**
8.0	**Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa**		
8.1	Meirion Jones a J Roberts wedi derbyn cyfrinair Charities Commsssion, Nodwyd bydd angen cyflwyno cyfrifon y Neuadd Goffa ers 2005 iddynt gan nad yw wedi derbyn y wybodaeth gan y Cyngor Bro ers hyn.	**D. Owen**	
8.2	Meirion Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio i roi aelodau Pwyllgor y Neuadd Goffa fel ymddiriedolwyr. Nodwyd nod angen i'r aelodau gyflwyno'r wybodaeth ganlynol; enw llawn, cyfeiriad llawn, dyddiad geni, dyddiad apwyntiad i bwyllgor y Neuadd Goffa, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn	**D. Owen**	**31/01/17**
9.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
9.1	31C14X/1/ENF Cais ôl gweithredol ar gyfer codi teras haul ynghyd a chodi estyniad i'r modurdy presennol yn 34 Cil y Graig - Dim sylwadau		
10.0	**Gohebiaeth**		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 31 Ionawr 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa